Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Iechyd Pridd ym Maes Amaethyddiaeth

29/04/2025

Mae pridd yn adnodd gwerthfawr yn ecolegol ac yn economaidd sy'n cynnal bywyd ac yn darparu amrediad o wasanaethau ecosystem i Gymru.

Mae'r papur hwn yn rhoi rhagor o dystiolaeth ar gyfer sesiwn graffu Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd ar Iechyd Pridd ym Maes Amaethyddiaeth.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 3**

**2. Rôl a chyflwr priddoedd mewn systemau amaethyddol: ....... 7**

**3. Monitro Iechyd Pridd ........ 9**

**4. Dosbarthu Priddoedd yn ôl Defnydd Tir: ........ 11**

**5. Y mecanweithiau polisi a deddfwriaethol i ddiogelu priddoedd a thir cynhyrchiol. ........ 13**

**6. Y potensial ar gyfer fframweithiau cyfreithiol a thargedau ar gyfer priddoedd. ........ 18**


# 1. Cyflwyniad

Mae diwylliant ac amgylchedd Cymru yn unigryw, o ganlyniad i'r pridd a'r ffordd mae'r wlad yn cael ei ffermio, gyda systemau a phriddoedd sy'n aml yn wlyb ac yn gyfoethog mewn deunydd organig. Oherwydd prosesau ffurfio araf, ystyrir pridd yn adnodd anadnewyddadwy ac felly mae angen ei reoli mewn ffordd gynaliadwy. Am fod dros 80% o'r tir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, y ffordd mae tir yn cael ei ddefnyddio ac arferion ffermio, ynghyd ag effeithiau amgylcheddol, yw'r prif ffactorau sy'n effeithio ar gyflwr priddoedd yng Nghymru.

Mae 183 o wahanol gyfresi pridd yng Nghymru ac mae eu gwead (Ffig. 1) yn cynnwys silt, tywod, clai (mwynol) neu ddeunydd organig – neu gyfuniad o'r rhain. Mae rôl gwead pridd yn hanfodol i bob penderfyniad ffermio a rheoli pridd. Yn gyffredinol gellir rhoi'r rhain mewn pedwar grŵp bras: 1) Priddoedd brown mwynol sy'n draenio'n rhwydd; priddoedd clai glas â draenio rhwystredig sy'n mynd yn ddwrlawn yn dymhorol; priddoedd organo-fwynol mewn ardaloedd oer a gwlyb ag uwchbridd mawnog bas (<30cm); a priddoedd mawnog organig sydd â dyfnder >30cm o fawn o'r wyneb.

Mae'r amrywiad yn y math o bridd, yr ystod hinsoddol y mae ynddi (tymheredd, gwynt, glawiad) a nodweddion y safle (graddiant, llwybrau llif, creigwely, tirwedd) yn golygu y gall y risg a lefel o ddifrifoldeb yr effeithiau cysylltiedig o ganlyniad i wahanol arferion defnyddio tir fod yn gysylltiedig yn gryf â lleoliad penodol.

Ffigur 1: Lleoliad Dosbarthiadau Gwead Uwchbridd:





| **Pridd a Chod** |
|---|
| Tywod (S) |
| Tywod Lomog (LS) |
| Lôm Tywodlyd (SL) |
| Lôm Silt Tywodlyd (SZL) |
| Lôm Silt (ZL) |
| Lôm Clai Siltiog (ZCL)<br>Lôm Clai Tywodlyd (SCL)<br>Lôm Clai (CL)<br>A ffracsiynau o bridd trwm (H) a chanolig (M)<br>MZCL, HZCL, MCL, HCL, SCL |
| Clai Tywodlyd (SC)<br>Clai Siltiog (ZC)<br>Clai (C) |
| Mawnog (Pty) |

Mae'r hinsawdd yn cyfyngu'n sylweddol ar gyfleoedd ar gyfer gwaith tir a chnydau yng Nghymru. Mae glawiad a thymheredd yn dylanwadu ar gynllunio gweithgareddau amaethyddol i sicrhau'r amodau pridd gorau posibl ar gyfer gweithio a gyrru cerbydau ar bridd. Mae hyn yn cael ei asesu drwy nifer Dyddiau Capasiti'r Cae (FCD) (Ffig. 2) ar gyfer unrhyw safle penodol (h.y. nifer y diwrnodau yn olynol y mae'r pridd yn gwbl ddirlawn).

Mae'r rhan fwyaf o Gymru ar lefel >200 FCD, sy'n golygu yn aml mai nifer y diwrnodau pan ellir gweithio ar bridd a gyrru cerbydau arno yw <165 diwrnod y

flwyddyn. O'i chymharu, mae'r ffigur ar gyfer rhai ardaloedd ar yr arfordir ac ar y ffin yn is, sef 151-200 FCD, a'r ffigur ar gyfer llawer o leoedd yn Lloegr yw <151 FCD. Os yw'r pridd yn ddirlawn llawn am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, mae'n cynyddu'r risgiau sy'n gysylltiedig â thrin tir  (erydu, cywasgu, sefydlu cnydau, trin a chynaeafu) ar draws rhannau helaeth o Gymru, a dyma un o'r prif resymau mae'r rhan fwyaf o'r tir yn laswelltir yn hytrach na thir âr.

**Ffigur 2:** Parthau Dyddiau Capasiti Cae




Ni ellir defnyddio'r un dull ar gyfer pob math o bridd, defnydd tir a chyd-destun hinsoddol. Er mwyn diogelu a gwella pridd mae angen rhywfaint o waith ar ddehongli'r cyd-destun penodol, gan gydnabod y risgiau. Mae'r prif Amcanion

Polisi Pridd wedi'u hamlinellu yn y Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol. Y nod yw darparu fframwaith penodol i Gymru i ystyried datblygu ymyriadau.

Dyma'r Amcanion:

**Amcan 1:** Cynyddu gwybodaeth am briddoedd Cymru

**Amcan 2:** Annog rhannu gwybodaeth am briddoedd

**Amcan 3:** Diogelu, cynnal a gwella priddoedd, swyddogaethau pridd a gwasanaethau pridd

Mae'r is-amcanion hyn yn darparu rhagor o wybodaeth sydd yn y Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol:

i) Diogelu priddoedd rhag erydu drwy eu rheoli mewn modd priodol mewn ardaloedd sydd mewn perygl.

ii) Cynnal y lefel bresennol o ddeunydd organig wedi'i storio yn y pridd a'i chynyddu pan fydd hynny'n briodol, drwy reoli pridd mewn modd effeithiol.

iii) Cydbwyso cylchdroi maethynnau pridd i sicrhau bod swyddogaethau a gwasanaethau pridd yn cael eu cyflawni mewn modd effeithiol.

iv) Cynnal a gwella strwythur y pridd, gan ganolbwyntio ar leihau cywasgu pridd, drwy reoli pridd mewn modd priodol pan fydd amodau gwlyb yn peri risg uchel.

v) Diogelu a meithrin bioamrywiaeth pridd drwy reoli priodol.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Cyswllt Ffermio, y Fframwaith Polisi Cynllunio, Addasu i'r Hinsawdd, ERAMMP, y Rhaglen Dystiolaeth Polisi Pridd, SoNaRR, y Polisi Adnoddau Naturiol, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd i gyd yn chwarae rôl bwysig ac amlwg wrth gymryd y camau dynamig mae angen eu cymryd er mwyn diogelu a gwella priddoedd Cymru.

# 2. Rôl a chyflwr priddoedd mewn systemau amaethyddol:

Mae priddoedd amaethyddol yn adnodd gwerthfawr i Gymru – yn ecolegol, yn economaidd ac yn gymdeithasol. Ystyrir eu bod yn adnodd cyfyngedig, oherwydd eu cyfraddau ffurfio araf. Mae priddoedd amaethyddol yn cyflawni nifer o swyddogaeth a gwasanaethau:

- — darparu'r sail ar gyfer bwyd, ynni sy'n deillio o fiomas, a deunyddiau crai fel pren neu gnydau ffeibr eraill
- — rheoleiddio cylchoedd amgylcheddol maethynnau a charbon
- — darparu cynefinoedd gwerthfawr a chynnal bioamrywiaeth
- — rheoleiddio llif ac ansawdd dŵr
- — rheoleiddio'r hinsawdd a lliniaru rhai effeithiau newid yn yr hinsawdd
- — cadw treftadaeth ddiwylliannol ac archaeolegol megis tir amgaeedig hanesyddol a phatrymau tyfu traddodiadol
- — darparu platfform ar gyfer seilwaith

Mae'r rhan fwyaf o dir amaethyddol (tua 87%) yn laswelltiroedd parhaol a newydd a thir pori garw. Mae'r tir âr a'r tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer garddwriaeth tua 5–6% o arwynebedd y tir amaethyddol. Mae ardaloedd mawr o laswelltir a reolir ac amodau hinsoddol gwlyb (sydd wedi creu ardaloedd mawr o fawn a phridd organo-fwynol) wedi arwain at lefelau uwch o garbon yn y pridd na'r rhan fwyaf o briddoedd yn Lloegr ac Ewrop.

I grynhoi, mae priddoedd amaethyddol yng Nghymru yn unigryw ac at ei gilydd mewn cyflwr da[1] oherwydd lefel y diogelu pridd a roddir gan systemau glaswelltir; fodd bynnag, mae problemau pridd sy'n gysylltiedig yn gryf â lleoliad penodol.

Mae'r bygythiadau presennol yn cynnwys colli deunydd organig pridd yn lleol, erydu pridd, colli strwythur a chywasgu pridd a chylchoedd maethynnau pridd

[1] Synthesis o Dystiolaeth Pridd Cymru

anghytbwys. Bygythiadau sy'n dod i'r amlwg yw newid yn yr hinsawdd a newid dulliau rheoli amaethyddol, sy'n rhyng-gysylltiedig ac y disgwylir iddynt gynyddu pwysau ar briddoedd ymhellach. Mae hwn yn faes â blaenoriaeth ar gyfer dadansoddi'r data monitro pridd hirdymor ymhellach.

# 3. Monitro Iechyd Pridd

Ariennir Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP) gan Lywodraeth Cymru, i ddarparu tystiolaeth a dadansoddiadau gwyddonol i ategu'r gwaith o ddatblygu polisïau a gwerthuso'r ffordd mae rhaglenni amaethyddiaeth a defnydd tir yn cael eu gweithredu. Mae Arolwg Maes Cenedlaethol ERAMMP yn adeiladu ar fonitro'r gorffennol, gan gynnwys ailadrodd arolwg maes sylfaenol Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP) i nodi tueddiadau cenedlaethol mewn adnoddau naturiol, gan gynnwys priddoedd ac i asesu effaith cynllun Glastir.

Mae mesuriadau pridd Arolwg Maes Cenedlaethol ERAMMP yn cynnwys deunydd organig pridd, carbon organig mewn pridd, lleithder a dwysedd, pH, cyfanswm y nitrogen, y ffosfforws sydd ar gael, mesoffawna, eDNA ar gyfer poblogaethau microbaidd ac anifeiliaid a mannau problemus ar gyfer colli pridd ac erydu. Mae'r holl fesuriadau wedi'u cyd-leoli â defnydd tir a llystyfiant.

Mae monitro pridd yn elfen allweddol o ERAMMP ac mae Dangosydd Lles Cenedlaethau'r Dyfodol-13 cydnabod hyn drwy adrodd am y mesuriad ar gyfer faint o garbon sydd yn y pridd a chynnwys y deunydd organig yn y pridd (0–15cm).

Mae rhai priodweddau iechyd pridd yn cymryd blynyddoedd lawer i ymateb i newidiadau rheoli, ond mae eraill yn newid yn dymhorol. Er bod Adolygiad Tystiolaeth Pridd Cymru yn dod i'r casgliad bod priddoedd yng Nghymru mewn cyflwr da yn gyffredinol, mae monitro hirdymor ERAMMP yn caniatáu i Lywodraeth Cymru asesu newidiadau a thueddiadau tymor hwy.

Mae mynychder systemau glaswelltir yn helpu i ddiogelu priddoedd a storio carbon. Fodd bynnag, mae adroddiad Tueddiadau Cenedlaethol Cymru a Gwerthusiad Glastir a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn tynnu sylw at sawl maes ar gyfer ymchwilio pellach. Mae'r rhain yn cynnwys cyfraddau tarfu ac erydu pridd; cynnydd cyffredinol mewn dwysedd priddoedd amaethyddol; a dirywiad mewn carbon yn y pridd ar gyfer priddoedd garddwriaethol ac âr. Mae adrodd cenedlaethol yn galluogi Llywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwiliadau pellach i'r rhesymau dros y tueddiadau, i dargedu monitro ac i ddatblygu ymatebion polisi.

Mae polisïau, tystiolaeth, adroddiadau a phrosiectau gweithredol penodol ar gael yn ERAMMP (Adroddiadau Tystiolaeth a Dadansoddi), Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), a'r Rhaglen Tystiolaeth Polisi Pridd (SPEP).

Y Blaenoriaethau Presennol:

Mae Asesiad SoNaRR o Fynyddoedd, Rhostiroedd a Rhosydd yn cadarnhau bod priddoedd a chynefinoedd ein mawndiroedd at ei gilydd mewn cyflwr diraddiedig, a dyma pam mae angen Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP) bwrpasol a neilltuedig i adfer y cynefinoedd gwlyptir gwerthfawr hyn. Mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn sicrhau cydgysylltu cenedlaethol wrth fonitro ac adrodd ar weithgareddau adfer mawndiroedd ledled Cymru. Mae'n cyhoeddi'r holl weithgareddau adfer a rheoli cynefinoedd ar Borth Data Mawndiroedd Cymru.

Mae Astudiaeth Beilot Monitro Risg Moel y Rhaglen Dystiolaeth Polisi Pridd yn brosiect 12 mis ar ddefnyddio delweddau lloeren i asesu'r risg y mae priddoedd moel yn ei hachosi i gyrsiau dŵr ym mhob dalgylch yng Nghymru. Disgwylir i'r system fonitro ddechrau ym mis Mehefin 2025 ac adrodd ar y canfyddiadau ar ddiwedd 2026.

Diweddariad Technegol Llawn y System Dosbarthiad Tir Amaethyddol: prosiect ar y cyd rhwng DEFRA a Llywodraeth Cymru yw hwn i ddiweddaru'r System Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn llawn, gan gynnwys y data a'r methodolegau sylfaenol, er mwyn sicrhau bod data am ansawdd tir yn gywir ac yn gynhwysfawr yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu mewnbwn technegol sylweddol ar gyfer y prosiect hwn gan adeiladu ar y Gyfres o Adolygiadau Technegol Rhannau 1–5 a'r Asesiad Cwmpasu a gynhyrchwyd gennym ar ran y ddwy lywodraeth.

# 4. Dosbarthu Priddoedd yn ôl Defnydd Tir:

Mae Dosbarthiad Tir Amaethyddol Cymru a Lloegr yn dosbarthu tir amaethyddol yn chwe gradd (1, 2, 3a, 3b, 4 a 5) yn ôl y graddau y mae nodweddion hinsoddol, pridd a safleoedd yn cyfyngu ar ddefnydd amaethyddol. Gall y cyfyngiadau effeithio ar yr amrediad o gnydau, y cynnyrch a'r gost sy'n gysylltiedig â ffermio'r tir.

Mae 10-15% o dir Cymru yn cael ei ddosbarthu yn Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMVAL), a ddiffinnir gan raddau 1, 2 a 3a Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Gellir defnyddio BMVAL i dyfu amrediad o gnydau, a dyma'r tir mwyaf hyblyg, cynhyrchiol ac effeithlon wrth ymateb i fewnbynnau, sy'n golygu mai dyma'r tir gorau ar gyfer darparu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau bwyd a difwyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl weithredol wrth ddiogelu BMVAL drwy bolisïau cynllunio, gwneud sylwadau ar geisiadau cynllunio, darparu tystiolaeth am ddosbarthiad tir a chynnal safonau ar gyfer cynnal arolygon o ddosbarthiad tir. Mae Cymru yn unigryw o ran cynnig gwasanaeth dilysu[2] arolygon o ddosbarthiad tir i sicrhau bod pob parti yn gallu dibynnu ar yr wybodaeth dechnegol a gyflwynir iddo.

Mae Polisi Cynllunio Cymru[3] yn ceisio gwarchod BMVAL fel adnodd cyfyngedig ar gyfer y dyfodol. Hefyd dylid rhoi pwyslais sylweddol ar amddiffyn tir o'r fath rhag cael ei ddatblygu oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. Mae cwmpas a phwysigrwydd y polisi yn cael ei egluro ymhellach mewn Llythyrau at y Prif Swyddog Cynllunio[4].

Yn 2017 cynhyrchodd Cymru y Map Rhagweld Dosbarthiad Tir – y diweddariad sylweddol cyntaf yng Nghymru neu Loegr ers y 1970au. Mae wedi cael ei ddylunio i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol, Datblygwyr, Syrfewyr a Ffermwyr i wneud penderfyniadau tymor hir gwybodus o fewn y system gynllunio ynghylch defnyddio'r tir ac i dargedu'r tir mwyaf addas i gynnal arolwg ohono.

Mae'r disgrifiad o'r gwaith o reoli pridd Cymru yn y cyd-destun hwn, yn y papur 'The global standard bearers of soil governance[5]' gan Lewis R. Peake a Cairo

---

[2] Dosbarthiad Tir Amaethyddol: canllawiau map rhagweld (adran 3)


[3] Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12) – paragraffau 3.58 a 3.59.

[4] BMVAL ac araeau PV solar ac Adroddiadau dosbarthu Tir Amaethyddol

[5] The global standard bearers of soil governance – ScienceDirect 4.1.6. Wales (UK)

Robb, fel a ganlyn: "*With respect to soils, the "letter of the law" varies little across the four countries* [of the UK], *but the interpretation, enforcement and supporting infrastructure of Wales sets it apart from its neighbours… In Wales, however, the primacy of ALC and BMV land has been maintained*".

# 5. Y mecanweithiau polisi a deddfwriaethol i ddiogelu priddoedd a thir cynhyrchiol.




Ffigur. 2 Trosolwg o'r fframwaith polisi pridd yng Nghymru

Cyn i'r Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol gael ei gyhoeddi, nid oedd polisi pridd cyffredinol ar gyfer diogelu'r pridd yng Nghymru. Mae polisïau sy'n berthnasol i briddoedd ar waith, ond maent wedi'u gwasgaru ar draws llawer o feysydd polisi ac at ei gilydd wedi'u cyfyngu i swyddogaethau penodol neu effeithiau priddoedd. Mae hyn yn cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd cyfunol i amddiffyn priddoedd. Mae'r Datganiad Polisi Priddoedd Amaethyddol yn ceisio rhoi gweledigaeth gydgysylltiedig a fframwaith eang ar gyfer rheoli pridd mewn modd cynaliadwy i fynd i'r afael â'r bwlch hwn. Nid yw'n nodi mesurau polisi newydd nac yn cynnwys canllawiau manwl i ymarferwyr ac nid yw'n ddogfen reoleiddio.

**Mesurau Penodol:**

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio defnydd tir. Mae'n cael ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANau), Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru, a llythyrau egluro polisi sydd, ynghyd â PCC, yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Cymru. Gyda'i gilydd, PCC, y TANau y TANau Mwynol a'r llythyrau egluro yw'r polisi cynllunio cenedlaethol.

Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw ein fframwaith datblygu sy'n pennu cyfeiriad datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Cynllun datblygu ydyw gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyrraedd targedau datgarboneiddio a gwrthsefyll yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau.

Mae polisïau a chyd-destun BMVAL, pridd a mawn yn ymddangos ym mhob dogfen ac yn ymdrin â rheoli datblygu cyffredinol, seilwaith cenedlaethol a pholisïau cynllunio mwynau.

Paragraffau a Phenodau perthnasol Cymru'r Dyfodol:

- Pennod 2 – yn nodi bod ein tir amaethyddol (BMVAL) yn adnodd hanfodol. Mae amaethyddiaeth wedi creu ein tirweddau a chefnogi ein trefi gwledig a marchnad ers cenedlaethau. Rhaid inni barhau i werthfawrogi a diogelu ein tir amaethyddol a sicrhau y gall ein bwydo a'n cynnal.
- Mae Polisi 9 ar Rwydweithiau Ecolegol Gwydn a Seilwaith Gwyrdd yn nodi dibyniaeth ar BMVAL a phridd sy'n gyfoethog mewn carbon.

- Polisi 18(11) Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol – mae darpariaethau derbyniol yn ymwneud â dadgomisiynu'r datblygiad ar ddiwedd ei oes, gan gynnwys cael gwared ar seilwaith ac adfer y safle yn effeithiol.

Paragraffau a Phenodau Perthnasol PCC:

- 3.58 –3.59 Gwarchod y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas
- 5.14.29 – 5.14.30 Mawn (cynllunio mwynau)
- 5.14.40 – 5.14.55 Pridd (Cynllunio mwynau)
- Pennod 6: Bydd y Canlyniadau Unigryw a Naturiol yn seiliedig ar gynnal a chreu lleoedd lle bydd cyfleoedd ym mhob ardal i wella gwydnwch ecosystemau'n cael eu cymryd drwy fynd i'r afael â phroblemau fel adeiladu ar orlifdiroedd, llygredd gwasgaredig, cywasgu a selio pridd, diogelu mawn a gwella dulliau o amddiffyn rhag llifogydd arfordirol mewn ardaloedd trefol a glandiroedd arfordirol;
- 6.4.15 – Y Dull Fesul-Cam 1a ac 1b sy'n ymwneud â chynefinoedd mawn na ellir eu disodli a phriddoedd na tharfwyd arnynt ers amser maith.
- 6.4.34 – Pridd mawn

Deddfwriaeth, Cyngor Technegol a Chylchlythyrau:

- Llythyrau at Brif Swyddog Cynllunio Cymru Tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas ac araeau PV solar | LLYW.CYMRU
- Nodyn Cyngor Technegol 6 – Pennod 6 (BMVAL) ac Atodiad B (Trefniadau ar gyfer ymgynghori â Llywodraeth Cymru).
- Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 – Agregau – Pennod D – Adfer ac Ôl-ofal – Trin ac Ailddefnyddio Pridd.
- Atodlen 5 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1995 – ôl-ddefnydd buddiol – mwynau.

**Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy:** Disgwylir i bridd ymddangos yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy haenau Sylfaenol, Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun

Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys gofyniad cyffredinol am brofion pridd (o leiaf 20% y flwyddyn) wedi'i gefnogi drwy gyngor wedi'i ddarparu drwy Cyswllt Ffermio. Bwriad hyn yw codi ymwybyddiaeth ffermwyr o gyflwr eu pridd i gefnogi camau rheoli cadarnhaol. Bydd camau gweithredu sylfaenol hefyd yn gwella priddoedd yn anuniongyrchol drwy ofynion i reoli cynefinoedd a pharatoi cynlluniau ar gyfer rheoli safleoedd dynodedig. Bydd camau eraill i wella iechyd y pridd, atal erydu a chywasgu, a diogelu stociau carbon yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol drwy Weithredoedd Opsiynol penodol ar gyfer pridd ac yn anuniongyrchol drwy weithredoedd eraill sy'n gysylltiedig â choed, dŵr a chynefinoedd.

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys Gofynion Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) system y taliad sengl i ffermydd i ddiogelu priddoedd rhag erydu a chywasgu (GAEC 4 a 5).

Rydym yn parhau i weithio gyda ffermwyr a rhanddeiliaid, ar y cyd, i sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cydnabod bod iechyd pridd yn sail i gynhyrchu bwyd cynaliadwy a'r rôl y mae'n ei chwarae wrth storio ac atafaelu carbon. Bwriedir cyhoeddi manylion terfynol y Cynllun yr haf hwn.

**Cyswllt Ffermio:**

Ariennir Cyswllt Ffermio, sy'n Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth sydd ar gael ledled Cymru, gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Buddsoddi Gwledig (RIS), ac mae'n elfen hanfodol o'r cymorth mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i fusnesau amaethyddol.

Mae sawl ymyriad sy'n berthnasol i briddoedd ar gael drwy Cyswllt Ffermio, gan gynnwys y Gwasanaeth Cynghori sy'n darparu cyngor cyfrinachol pwrpasol un-i-un â chymhorthdal gan Gynghorydd Cymwys FACTS[6] - mae'r ymyrryd yn cynnwys cymryd a dadansoddi 15-20 sampl pridd ynghyd â chynllun rheoli maethynnau manwl yn seiliedig ar y canlyniadau.

Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn darparu cymorth drwy ymyriadau un-i-lawer gan gynnwys Grwpiau Trafod sy'n edrych ar bwysigrwydd iechyd a strwythur pridd. Mae'r pynciau wedi'u trafod hyd yma yn cynnwys Egwyddorion Iechyd Pridd; Egwyddorion Amrywiaeth Rhywogaethau Planhigion; Rôl Bioleg Pridd a Da Byw wrth Hyrwyddo Cynhyrchiant Porfeydd; Technegau Rheoli i hyrwyddo storio dŵr ac atafaelu carbon; a Gwyndwn Cymysg a Chnydau Gorchudd. Mae dosbarthiadau meistr, gweithdai sy'n cynnwys cymysgedd o theori a dysgu ymarferol i fynychwyr, wedi canolbwyntio ar iechyd pridd ac annog dadansoddi

[6] Cynllun FACTS

pridd, ac roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys arferion ffermio adfywiol a rheoli glaswelltir.

Mae rhwydwaith arddangos ffermydd Cyswllt Ffermio – Ein Ffermydd – wedi cyflawni 40 o brosiectau ar draws 15 fferm sy'n edrych ar sut i wella iechyd y pridd. Mae'r holl wybodaeth a gasglwyd a'r technegau wedi'u defnyddio'n cael eu rhannu â ffermwyr ledled Cymru drwy ddiwrnodau agored, taflenni ffeithiau technegol, podlediadau a fideos gwybodaeth.

Bydd estyn y contractau i'r gwasanaethau presennol tan wanwyn 2026 yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau ac yn helpu i gyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r hyn mae Cyswllt Ffermio'n ei gynnig yn y dyfodol .

**Safon Coedwigaeth y DU:**

Mae Safon Coedwigaeth y DU yn darparu gwybodaeth ychwanegol ym Mhennod 8 ar goedwigoedd a phridd gan gydnabod eu rôl sylfaenol mewn ecosystemau tir fferm. Yn yr un modd â phriddoedd amaethyddol, mae'n cydnabod bod pridd yn adnodd hanfodol ond bregus y mae'n rhaid ei ddefnyddio mewn ffordd gynaliadwy drwy wybod a gweithio yn ôl math a chyflwr pridd.

**Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd**

Mae mawndiroedd yn cefnogi amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau, maent yn dal ac yn storio carbon, yn rheoleiddio allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn cynnal bioamrywiaeth ac yn rheoleiddio llif ac ansawdd dŵr. Ariennir y rhaglen hon gan Lywodraeth Cymru, a chafodd ei sefydlu i ysgogi, cydgysylltu a chyflawni camau gweithredu i adfer mawndiroedd yng Nghymru.

Cynhaliwyd camau i adfer mawndiroedd ar dros 3,000 hectar yn y pedair blynedd gyntaf (2020–24) sy'n golygu bod y rhaglen wedi rhagori ar ei tharged adfer 5-mlynedd cychwynnol. Mae camau gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y maes polisi mawn yn y Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru (2024) yn cynnwys cynyddu'r gyfradd adfer flynyddol i adfer 1,800 hectar o fawndir y flwyddyn erbyn 2030 ac yn y pen draw adfer 45,000 hectar erbyn 2050.

# 6. Y potensial ar gyfer fframweithiau cyfreithiol a thargedau ar gyfer priddoedd.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd monitro cenedlaethol ERAMMP, SoNaRR, y Rhaglen Dystiolaeth Polisi Pridd ac ymchwil ar y cyd â Defra i gyd yn parhau i lywio dull Llywodraeth Cymru o ddiogelu priddoedd a thir cynhyrchiol. Bydd hinsawdd sy'n newid yn gofyn am ddull hyblyg i fynd i'r afael â newid defnydd tir, deunydd organig, maethynnau, gwlypter a sychder.

Bydd pridd yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu'r fframwaith dangosyddion a thargedau ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Bydd dangosyddion a thargedau'n cael eu gosod gerbron y Senedd erbyn diwedd y flwyddyn hon. Bydd dangosyddion yn cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid dros yr haf.

Roedd adolygiad y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2025 yn ystyried rôl pridd a rheoli pridd ar gyfer yr holl dir amaethyddol yng Nghymru. Nododd fod rheoli pridd gwael yn peri risg sylweddol o lygredd i ddŵr. Mae hyn o ganlyniad i ddŵr ffo o bridd, mecanwaith sylweddol ar gyfer colli maethynnau a gwaddodiad, a chyflwr y pridd. Mae'r ddau ffactor yn cael effaith sylweddol ar allu cnwd i ddefnyddio'r maethynnau a roddir, gan gynyddu'r risg o lygredd.

Nododd yr adolygiad fod diffyg amddiffyniad deddfwriaethol ar gyfer priddoedd yng Nghymru, lle roedd yn rhan o ddeddfwriaeth mewn rhannau eraill o'r DU, ac argymhellodd fesurau i leihau'r risg o golli pridd i'r amgylchedd. Bydd yr argymhellion yn cael eu datblygu yn llawn.

- Argymhelliad 6 (tymor byr): Cynnwys gofynion yn y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol i ddiogelu rhag colli pridd i'r amgylchedd, gan efelychu o bosibl gofynion Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) Trawsgydymffurfio.
- Argymhelliad 7 (tymor canolig): Ystyried effaith tyfu cnydau risg uwch ar golledion pridd posibl i'r amgylchedd a thechnegau lliniaru effeithiol fel lleiniau clustogi.